OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 970 (Cy. 239)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Hydref 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 144(8)(c)(**1**) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo yn unol ag adran 144(8ZA)(**3**) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Hydref 2016.

**Diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998**

**2.** Ym mharagraff 4 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn lle "Local Government Boundary Commission for Wales" rhodder "Local Democracy and Boundary Commission for Wales".

---

(**1**) Breiniwyd y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 144(8)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn wreiddiol yn yr Ysgrifennydd Gwladol ond diwigiwyd adran 144(8) gan baragraff 45(7)(a) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn rhoi Gweinidogion Cymru yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) 1998. p. 38.

(**3**) Ychwanegwyd is-adran (8ZA) o adran 144 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gan baragraff 45(8) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2016

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, drwy newid disgrifiad un o'r cyrff a restrir yn yr Atodlen honno. Mae'r cyfeiriad at Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae hyn yn dilyn ailenwi'r corff corfforaethol hwnnw o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.